## Hanesion Cynhyrchwyr: **Elizabeth and Glen**

EAC, De Affrica, Resins



# Elizabeth and Glen Mentoor

Mae Elizabeth (64) yn byw ar Ynys Smiths, ynys fechan ar Afon Orange De Affrica. Yn gyn ffermwr, mae hi a'i theulu erbyn hyn yn casglu grawnwin sy'n cael eu tyfu gan aelodau Cwmni Cydweithredol Amaethyddol Eksteenskuil (EAC) ac sy'n cael eu gwerthu fel rhesins Masnach Deg i Traidcraft.



Mae'r arian o'r gwaith tymhorol yn rhoi incwm gwerthfawr iddyn nhw – ond nid dyna'r unig ffordd y mae Elizabeth yn elwa o'r cwmni cydweithredol. Mae premiwm Masnach Deg ar werthu rhesins wedi talu am ddau bwmp dŵr cymunedol, sy'n golygu nad oes raid i Elizabeth a'i chymdogion bellach gario bwcedi o ddŵr o'r gamlas i'w cartrefi.

**"Dim ond dau fwcedaid oeddem ni'n gallu ei gario ar y tro a doedd hynny ddim yn ddigon i'r teulu felly mi oedd yn rhaid cerdded a chario dŵr am ddiwrnod cyfan. Erbyn hyn, mae'n llawer mwy cyfleus i ni gan fod dŵr yn y tanc."**

Mae ei ŵyr, Glen, yn helpu i osod y pwmp yn y gamlas, 70 metr i ffwrdd. Mae'r dŵr yn cael ei bwmpio i fyny'r allt ac i'r tanc dŵr y tu allan i ddrws ffrynt Elizabeth, ble mae'n cael ei buro ac wrth law pryd bynnag y bydd ei angen.





Lluniau: Traidcraft/Richard Else
Mae'r EAC yncyflenwi rhesins i Traidcraft.
Gwybodaeth o gyfweliadau ym mis Chwefror 2009

# Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

## Hanesion Cynhyrchwyr: **Don van Wyk**


EAC, De Affrica, Resins







## Don van Wyk

Yn ogystal â thalu am y pympiau dŵr mae premiwm Masnach Deg hefyd yn golygu bod ffermwyr wedi gallu buddsoddi mewn offer fferm newydd a phrynu bagiau ysgol i'w plant mewn pedair ysgol gynradd ar yr ynysoedd. Don van Wyk yw pennaeth Ysgol Gynradd Ynys George.







**"Mae fel manna o'r nef. Mi alla i ddweud wrthych bydd y rhieni wedi gwirioni. Mae'n pobl ni mor dlawd yn yr ardal hon ac mae'r pethau hyn fel rheol allan o'u cyrraedd. Bydd pobl yn sôn am hyn am wythnosau a misoedd.**

